

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) yn ymwneud â myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn prifysgolion neu golegau yn y DU

Yn ystod y flwyddyn academiaidd gall myfyriwr benderfynu gadael ei astudiaethau, naill ai dros dro neu'n barhaol. Yn dibynnu ar ei amgylchiadau, gellir dosbarthu hyn fel tynnu'n ôl, trosglwyddo neu atal.

Os disgwylir i'r myfyriwr ddychwelyd i astudio, bydd hyn yn cael ei ddosbarthu fel trosglwyddiad neu **ataliad**. Os nad yw'r brifysgol neu'r coleg yn disgwyl i'r myfyriwr ddychwelyd, bydd yn cyflwyno hysbysiad **tynnu'n ôl**.

Sylwch, hyd yn oed os bydd myfyriwr yn atal neu'n tynnu'n ôl o'i gwrs yn ystod misoedd yr haf, gallai hyn effeithio o hyd ar ei gyllid myfyriwr ac unrhyw gamau y mae angen iddo eu cymryd.

### Trosglwyddo Astudiaeth

Byddai angen trosglwyddo astudiaeth i symud myfyriwr i gwrs gwahanol yn yr un Darparwr Addysg Uwch (HEP) neu drosglwyddo myfyriwr i'ch darparwr addysg uwch.

Bydd angen i ddarparwyr addysg uwch gyhoeddi Newid i Amgylchiadau trosglwyddo a chydabod y trosglwyddiad trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth Myfyrwyr (SIS). Dylent hefyd wneud y myfyriwr yn ymwybodol y gallai effeithio ar ei gyllid e.e. os oes newid i hyd y cwrs.

### Tynnu'n ôl o Astudio

Mae myfyrwyr sydd wedi tynnu'n ôl o'u hastudiaethau wedi gadael eu Darparwr Addysg Uwch ac nid oes disgwyl iddynt ddychwelyd i astudio.

- Bydd darparwr addysg uwch y myfyriwr yn hysbysu SLC o hyn trwy anfon hysbysiad tynnu'n ôl electronig Newid i Amgylchiadau. Unwaith y byddant wedi'u prosesu, bydd pob taliad yn y dyfodol yn cael ei ganslo, a bydd hawl y myfyriwr yn cael ei ail-gyfrifo a allai arwain at ordaliad benthyciad a/neu grant.
- Os oes gan y myfyriwr grant a/neu ordaliad benthyciad, o ganlyniad i dynnu'n ôl, bydd SLC yn cysylltu ag ef i wneud trefniadau i ad-dalu.
- Bydd angen i fyfyrwyr sy'n ailddechrau astudio ar ôl tynnu'n ôl ailymgeisio fel myfyriwr newydd ac felly ailsefydlu eu cymhwysedd.

### Mathau o dynnu'n ôl:

**Diffyg Presenoldeb:** Os nad yw myfyrwyr wedi mynychu eu cwrs, caiff y ceisiadau hyn eu 'hasesu'n sero' ac ni fyddant yn cael eu cyfrif fel astudiaeth flaenorol.

**Cyfnod ailfeddwl:** Os yw'r myfyriwr wedi bod yn bresennol ond wedi tynnu'n ôl yn ystod y cyfnod 'ailfeddwl', yna bydd y ceisiadau hyn yn cael eu prosesu yn yr un modd â thynnu'n ôl arferol. Felly, bydd astudiaethau blaenorol yn cael eu hystyried ar gyfer cyfnodau astudio yn y dyfodol.

**Iechyd:** Os gall y myfyriwr ddangos tystiolaeth mai rhesymau iechyd sy'n gyfrifol am dynnu'n ôl, yna gellir cymryd Rhesymau Personol Cymhellol i ystyriaeth ar gyfer astudio yn y dyfodol.

### Atal Astudiaethau

Mae myfyrwyr sydd wedi atal eu hastudiaethau wedi rhoi saib ar eu haddysg uwch a disgwylir iddynt ddychwelyd i astudio.

#### Atal Astudiaethau oherwydd Rhesymau Meddygol

Mae'n bosibl y bydd modd i fyfyrwyr sydd wedi gorfod atal eu hastudiaethau oherwydd afiechyd gael eu hawl (cynhaliath a grantiau i ddibynyddion) wedi'i ymestyn 60 diwrnod ar ôl y dyddiad y gadawsant eu hastudiaethau.

Bydd angen i ddarparwr addysg uwch y myfyriwr hysbysu SLC bod y myfyriwr wedi atal am resymau iechyd.

I ddyfarnu cymorth ar ôl 60 diwrnod neu drwy gydol cyfnod yr ataliad, bydd angen i SLC weld tystiolaeth o:

- Y rhesymau dros yr ataliad
- Hyd yr ataliad
- Caledi Ariannol

Mae pob ataliad yn cael ei gyfrif fel blwyddyn astudio. Yr unig eithriad i hyn yw os yw'r myfyriwr sy'n parhau wedi atal am resymau iechyd ar ddiwrnod cyntaf ei gwrs a bod 60 diwrnod o gymorth wedi'i ddyfarnu – nid yw hyn yn cael

ei ddsbarthu fel blwyddyn o astudio blaenorol. Ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd ac sy'n parhau â'u hastudiaethau, dylid dyddio'r ataliad cyn dechrau Tymor 1 am y 60 diwrnod sydd i'w gyfrifo o'r diwrnod 1<sup>af</sup>.

Mewn rhai amgylchiadau efallai y byddwn yn gallu parhau i ddarparu cyllid i'r myfyriwr ar sail caledi ariannol.

### **Ailddechrau Astudiaethau ar ôl atal / tynnu'n ôl**

#### **Myfyriwr yn atal / tynnu'n ôl ac yn aildechrau astudio o fewn yr un Flwyddyn Academaidd**

Os bydd myfyriwr yn atal/tynnu'n ôl ac yna'n aildechrau ei astudiaethau o fewn yr un Flwyddyn Academaidd yn yr un Darparwr Addysg Uwch, byddai angen i SLC ffurflen aildechrau Newid i Amgylchiadau gan y Darparwr. Mae hyn yn galluogi SLC i ailasesu'r cais ac ail-gyfrifo'r hawl cywir ar gyfer y myfyriwr yn seiliedig ar y dyddiadau y bydd yn bresennol\*.

\*Os yw myfyriwr wedi'i dynnu'n ôl drwy'r broses tynnu'n ôl yn awtomatig ar gyfer diffyg presenoldeb gall SLC dderbyn ffurflen CO1 i newid y cais.

Os byddwn yn derbyn hysbysiad aildechrau Newid i Amgylchiadau gan y darparwr addysg uwch gyda dyddiad aildechrau yn y dyfodol arno, ni all SLC weithredu hyn tan y dyddiad hwnnw.

#### **Myfyriwr yn Atal Dros Dro mewn un Flwyddyn Academaidd ac yn aildechrau ar ddechrau'r flwyddyn nesaf**

Os bydd myfyriwr yn atal ei astudiaethau mewn un flwyddyn academaidd ac yn aildechrau ei astudiaethau ar ddechrau'r Flwyddyn Academaidd nesaf, byddai SLC angen hysbysiad atal Newid i Amgylchiadau gan y Darparwr Addysg Uwch. Ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol mae'n ofynnol i'r myfyriwr gyflwyno cais myfyriwr sy'n dychwelyd (PR1). Nid oes angen hysbysiad aildechrau Newid i Amgylchiadau gan nad ydynt yn aildechrau yn yr un flwyddyn academaidd.

Bydd y darparwr addysg uwch yn gallu anfon Cadarnhad o Gofrestriad/Cadarnhad Presenoldeb pan fydd y myfyriwr yn aildechrau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf er mwyn rhyddhau ei daliadau.

#### **Myfyriwr yn atal dros dro mewn un Flwyddyn Academaidd ac yn aildechrau rhan o'r ffordd trwy Flwyddyn Academaidd wahanol**

Pan fydd myfyriwr yn atal ei astudiaethau mewn un flwyddyn academaidd ac yn aildechrau hanner ffordd drwy un arall, mae angen i'r myfyriwr ailymgeisio ar ffurflen PR1 er mwyn i'w gyllid gael ei asesu. Bydd y cais newydd yn cael ei atal hyd at y dyddiad y disgwylir i'r myfyriwr aildechrau, gan ddefnyddio'r dyddiad dychwelyd a ddarparwyd ar y dasg ataliad Darparwr Addysg Uwch wreiddiol.

Mae angen i'r Darparwr Addysg Uwch gyflwyno hysbysiad aildechrau Newid i Amgylchiadau pan fydd y myfyriwr yn dychwelyd i sicrhau bod y cyllid cywir yn cael ei ddyfarnu.

Os bydd y Darparwr Addysg Uwch yn cyflwyno hysbysiad aildechrau Newid i Amgylchiadau gyda dyddiad aildechrau yn y dyfodol arno, ni all SLC weithredu hyn tan y dyddiad hwnnw.

#### **Myfyriwr yn atal ei astudiaethau ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ac yn cymryd seibiant blwyddyn cyn aildechrau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf**

Pan fydd y myfyriwr yn atal ei astudiaethau ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, bydd angen i'r Darparwr Addysg Uwch ddarparu hysbysiad atal Newid i Amgylchiadau. Byddai'r toriad 1 flwyddyn yn cael ei ddsbarthu fel blwyddyn allan. Ar ôl dychwelyd i'w astudiaethau ar ddechrau'r Flwyddyn Academaidd ganlynol, bydd angen i'r myfyriwr siarad â'i ddarparwr addysg uwch i ganfod a yw'n ei ddsbarthu fel myfyriwr newydd neu fyfyriwr sy'n dychwelyd i sicrhau bod y myfyriwr yn gwneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen gais gywir.

Gall Darparwr Addysg Uwch ofyn am ymestyn cyllid i atal dileu cymorth, neu fel arall mae ataliad yn aml yn costio arian iddynt dros gyfnod yr haf (wrth gael grantiau). Mae cyflwyno ataliad hefyd yn ein hysgogi i newid dyddiad gorffen y cais cyfredol a chaniatáu i fyfyrwyr wneud cais yn gywir fel dychwelwyr gyda dyddiadau ad-dalu cywir.

### **Gordaliad:**

Gall gordaliad benthyciad neu grant ddigwydd o ganlyniad i fyfyriwr yn tynnu'n ôl neu'n atal ei astudiaethau a gallai effeithio ar ei hawl yn y dyfodol h.y. byddwn yn ceisio tynnu unrhyw Fenthyciad Cynhaliaeth a Grant Cynhaliaeth a ordalwyd o hawliad yn y dyfodol, oni bai bod y myfyriwr yn gallu darparu tystiolaeth y byddai hyn yn achosi caledi ariannol iddynt. Os oes angen, dylai myfyrwyr gysylltu â'u domisil ariannu perthnasol i drafod unrhyw effeithiau ar eu hawl yn y dyfodol.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefannau Ymarferwyr a'n gwefan Gwasanaethau Darparwr Addysg Uwch:

Ymarferwyr CMC: <https://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/ymarferwyr/>

Gwasanaethau HEP: <https://www.heinfo.slc.co.uk/>